# *Trafodion*
# *Anrhydeddus Gymdeithas*
# *y Cymmrodorion*
# *2005*

CYFRES NEWYDD, CYFROL 12 (2006)

# *Transactions*
# *of the Honourable Society*
# *of Cymmrodorion*
# *2005*

NEW SERIES, VOLUME 12 (2006)

*Golygydd: Editor:*

PETER R. ROBERTS

Cyhoeddir gan y Gymdeithas   Published by the Society

30 EASTCASTLE STREET, W1W 8DJ
LLUNDAIN : LONDON

ISSN 0959 3632

# *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion 2005*

CYFRES NEWYDD, CYFROL 12 (2006)

# *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion 2005*

NEW SERIES, VOLUME 12 (2006)

*Golygydd: Editor:*

PETER R. ROBERTS

Cyhoeddir gan y Gymdeithas    Published by the Society

30 EASTCASTLE STREET, W1W 8DJ
LLUNDAIN : LONDON

ISSN 0959 3632



## ANRHYDEDDUS GYMDEITHAS Y CYMMRODORION

Adroddiad y Cyngor am 2005

Cyflwynwyd i'r Cyfarfod Blynyddol Mai 18fed 2006

Dyrchafwyd Llywydd y gymdeithas, yr Athro Rees Davies CBE yn farchog yn Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd 2005. Yr oedd wedi bod yn wael iawn am rai misoedd a chlywsom am ei farwolaeth â thristwch mawr ar 16eg o Fai 2005. Gwelwyd cynrychiolaeth deilwng o'r gymdeithas yn ei angladd yn Aberystwyth ac yn y cyfarfod coffa yn Rhydychen ym mis Hydref. Yr oedd aelodau'r Cyngor wrth eu bodd wedi hynny pan ymatebodd y Foneddiges Carys Davies yn gadarnhaol i'r gwahoddiad i fod yn Is-Lywydd ar y gymdeithas.

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol ond ychydig ddyddiau wedi marwolaeth Syr Rees Davies. O barch iddo ef, ni etholwyd Llywydd bryd hynny, ond cytunodd y cyfarfod fod y Cyngor yn llenwi'r swydd maes o law. Yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Hydref penderfynwyd yn unfrydol estyn gwahoddiad i'r Athro Prys Morgan, Abertawe i fod yn Llywydd ar y Gymdeithas. Mater o lawenydd i bawb oedd iddo dderbyn.

Trefnwyd deg darlith dan nawdd y Gymdeithas yn ystod y flwyddyn gan gynnwys darlithiau coffa Syr T H Parry Williams a June Gruffydd, yr olaf yn gyfarfod ar y cyd gyda Chymdeithas Maldwyn. Cynhaliwyd y ddarlith flynyddol arferol yn y Gymraeg yng Nghanolfan Cymry Llundain, eto gyda chymorth Cymdeithas y Gwyneddigion a Fforwm Cymry Llundain. Yr oedd y ddarlith a draddodwyd yn y Gymraeg ym mis Ebrill 2005 yn Neuadd y Ddinas Caerdydd, yn gyfarfod ar y cyd gyda Chymdeithas Cymrodorion Caerdydd i ddathlu canmlwyddiant Caerdydd fel dinas a'i hanner canmlwyddiant fel prif ddinas Cymru. Hyfryd oedd gweld nifer o ddisgynyddion teuluol Thomas Charles yn bresennol yn y ddarlith ym mis Tachwedd i ddathlu 250 mlynedd oddiar ei eni ym 1755.

Dyma fanylion yr holl ddarlithiau a draddodwyd yn ystod y flwyddyn:

Ionawr 18fed 2005 (Llundain)
*'Viking Age Wales: New light on an obscure period'*
Dr Mark Redknap, Amgueddfa Genedlaethol Cymru.
Yn y gadair: Yr Athro Thomas Charles-Edwards, Rhydychen, Aelod o'r Cyngor.

Chwefror 15fed 2005 (Llundain)
Darlith Goffa June Gruffydd.
*'Queen of Powys: Dora Herbert Jones and her contribution to Welsh Folk Song'*
Gwenan Gibbard, Pwllheli.
Yn y gadair: Dr Rhian Davies, Aelod o'r Cyngor.

Mawrth 9fed 2005 (Llundain)
*'Travellers in Wales in the Eighteenth Century'*
Dr Peter Howell Williams, Rhuthun.
Yn y gadair: Peter Jeffreys, Aelod o'r Cyngor.

Ebrill 22ain 2005 (Caerdydd)
*'Caerdydd'*
Dr John Davies.
Yn y gadair: Gwen Emyr, Is-Lywydd, Cymrodorion Caerdydd.

Mai 19eg 2005 (Llundain)
*'This Murmuring and Unthankefull Peevish Land': Wales and the Cromwellian Protectorate*
Dr Lloyd Bowen, Caerdydd.
Yn y gadair: Yr Athro John Elliott, Cadeirydd y Cyngor.

Mehefin 13eg 2005 (Llundain)
*'Gwrhydri Iolo – Trem ar Hanes Gorsedd y Beirdd'*
Dr Robyn Léwis, Archdderwydd Cymru.
Yn y gadair: Elfyn Llwyd, Ysw., A.S.

Awst 1af 2005 (Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Y Faenol)
*'Her y Mynyddoedd: Eryri'r Gorffennol a'r Dyfodol'*
Yr Athro R Merfyn Jones, Is-Ganghellor Prifysgol Cymru, Bangor.
Yn y gadair: Yr Athro Eric Sunderland, Is-Lywydd y gymdeithas.

Medi 29ain 2005 (Llundain)
*'The Law of England and Wales: The Welsh contribution'*
Yr Athro Syr David Williams, Caergrawnt.
Yn y gadair: Yr Arglwydd Ustus Thomas, Is-Lywydd y gymdeithas.

Hydref 25ain 2005 (Llundain)
*'Slim's Welsh General: Major General 'Pete' Rees in the Burma Campaign'*
Alan Jeffreys, Ysw., Amgueddfa Ryfel Imperialaidd, Lambeth.
Yn y gadair: Yr Athro John Elliott, Cadeirydd y Cyngor.

Tachwedd 16eg 2005 (Llundain)
*Confidence and Godly Passion: Thomas Charles of Bala 1755-1814'*
Parchg. Ddr. R Watcyn James, Tŷ-croes.
Yn y gadair: Parchg. Peter Dewi Richards.

Dymuna'r Cyngor ddiolch i bawb a draddododd ddarlith am eu cyfraniad gwerthfawr i raglen y Gymdeithas. Cynigir diolch, hefyd, i bawb a fu yn y gadair i'r darlithiau hyn. Yr oedd y cynulliadau ymhob darlith, yn ddieithriad, yn deilwng iawn.

Cyhoeddwyd y Trafodion am y flwyddyn 2004 ym mis Hydref 2005. Dymuna'r Cyngor ddiolch i'r cyfranwyr ac yn enwedig i Dr Peter Roberts, y Golygydd Mygedol ac i Dr Rhidian Griffiths, y Swyddog Mygedol dros Gyhoeddiadau am eu gwaith ar y gyfrol hon.

Dymuna'r Cyngor ddatgan gwerthfawrogiad am waith cynrychiolwyr y Gymdeithas ar wahanol gyrff cyhoeddus yng Nghymru yn ystod y flwyddyn.

Gwnaethpwyd trefniadau gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru i ategu cyfraniadau i'r *Bywgraffiadur Cymreig/Dictionary of Welsh Biography* i'w cyhoeddi ar y rhyngrwyd ar safle we y Llyfrgell. Byddai hyn yn ehangu'r gwaith hyd at y flwyddyn 2000 gyda'r Dr Brynley F. Roberts yn parhau fel Golygydd a Gwenda Sippings yn gweithredu fel Swyddog Cyswllt.

Yn ystod y flwyddyn bu farw y ddau aelod hwyafsefydlog o'r gymdeithas: Parchg. John Samuel Jones, Llanbedr P.S. a Harold G. Whitehead,Ysw., Sevenoaks, y naill wedi bod yn aelod oddi ar 1942 a'r llall oddi ar 1947.

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas yn yr Academi Brydeinig ar 19eg Mai 2005 gyda Chadeirydd y Cyngor yn y gadair a 37 aelod yn bresennol. Cyfarfu'r Cyngor deirgwaith a chynhaliwyd hefyd gyfarfodydd o'r swyddogion ac o bwyllgorau gwaith.



Yn y Cyfarfod Blynyddol, fel arwydd o barch i'r diweddar Athro Syr Rees Davies, ni lanwyd swydd y Llywydd ond rhoddwyd rhyddid i'r Cyngor i lanw'r swydd maes o law. Ar gynnig yr Athro John Elliott, eiliwr John Samuel, ar ran y Cyngor, ail-etholwyd yr Is-Lywyddion presennol.

Ar gynnig Clive Jones-Davies, eiliwr Ken Kyffin, ail-etholwyd Douglas Brooks, Thomas Charles-Edwards, John Elliott, Rhidian Griffiths, Prys Morgan, Brynley Roberts a David Watkins yn aelodau o'r Cyngor am gyfnod o dair blynedd. Ar gynnig Stuart Cole, eiliwr Arwyn Lloyd Hughes, ail-benodwyd E. Glyn Hughes yn Archwiliwr am y flwyddyn ganlynol.

Yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Hydref, nodwyd dymuniad yr Ysgrifennydd Mygedol i roi'r gorau i'r swydd ar derfyn tymor presennol y swyddogion, ddiwedd y flwyddyn 2006. Bydd wedi llenwi'r swydd am ddeng mlynedd erbyn hynny.

John Samuel
Ysgrifennydd Mygedol

*Elusen Gofrestredig Rhif 313141*

ADRODDIAD YR ARHOLWR ANNIBYNNOL AT YMDDIRIEDOLWYR
**ANRHYDEDDUS GYMDEITHAS Y CYMMRODORION**
CYFRIFON AM Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31 RHAGFYR 2005

Yr ydym wedi archwilio'r cyfrifon, sy'n ymddangos ar dudalennau 200–203, ac a baratowyd yn ôl gofynion polisïau cyfrifyddol cymeradwy sy'n gyfredol.

**Priod gyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr a'r arholwr annibynnol**
Fel ymddiriedolwyr yr elusen yr ydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon: yr ydych o'r farn nad ydyw gofynion rhan 43(2) o Ddeddf Elusen 1993 (y Ddeddf) yn addas i'ch sefyllfa. Ein cyfrifoldeb ni yw datgan, ar sail yr arferion a fanylir yn y Cyfarwyddiadau Cyffredinol a gyhoeddir gan y Comisiynwyr Elusen dan ran 43(7)(b) o'r Ddeddf, a ddaeth unrhyw faterion arbennig i'n sylw ai peidio.

**Sail adroddiad yr arholwr annibynnol**
Cyflawnwyd ein arholiad yn unol â'r Cyfarwyddiadau Cyffredinol a gyhoeddwyd gan y Comisiynwyr Elusen. Y mae'r arholiad yn cynnwys adolygiad o'r cofnodion cyfrif a gedwir gan yr elusen, a chymhariaeth o'r cyfrifon a gyflwynir gyda'r cofnodion hynny. Y mae'n cynnwys hefyd ystyriaeth o unrhyw eitemau anarferol neu unrhyw ddatgeliadau yn y cyfrifon hynny, a cheisio eglurhad oddi wrthych chwi fel ymddiriedolwyr ynglŷn ag unrhyw faterion o'r fath. Nid ydyw'r arferion a gyflawnwyd yn rhoi'r holl dystiolaeth a fyddai'n angenrheidiol mewn archwiliad cyflawn ac oherwydd hynny nid ydym yn datgan barn archwiliadol ar yr argraff a roddir gan y cyfrifon.

**Datganiad yr arholwr annibynnol**
Ni ddaeth unrhyw beth i'n sylw yn gysylltiedig â'n harholiad sy'n rhoi achos rhesymol i ni gredu mewn unrhyw fodd sylweddol:

(a) na chadwyd cofnodion cyfrif yr elusen yn unol â gofynion rhan 41 o'r Ddeddf

(b) nad ydyw'r cyfrifon am y flwyddyn yn gorffen 31 Rhagfyr 2005 yn gyson â'r cofnodion hynny.

Ymhellach, ni ddaeth unrhyw beth i'n sylw yn berthnasol â'n harholiad y dylid, yn ein barn ni, ei gyflwyno i sylw'r ymddiriedolwyr er mwyn hyrwyddo dealltwriaeth gywir o'r cyfrifon.

E. G. HUGHES A'I GWMNI
Cyfrifyddion Siartredig

Glynderi
Batchworth Lane
Northwood
HA6 3HE

10.4.2006



**ANRHYDEDDUS GYMDEITHAS Y CYMMRODORION**

ADRODDIAD O GYFRIFOLDEBAU'R YMDDIRIEDOLWYR
AM Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31 RHAGFYR 2005

**Cyfrifon cyfrif**
Y mae rhan 41 yn gosod rheidrwydd ar ymddiriedolwyr yr elusen i sicrhau digonedd y cofnodion cyfrif i:

(a) ddangos ac egluro holl weithrediadau'r elusen;

(b) ddatgelu, unrhyw bryd, gyda chywirdeb rhesymol, sefyllfa ariannol yr elusen bryd hynny;

(c) alluogi'r ymddiriedolwyr i sicrhau bod unrhyw ddatganiad o gyfrif sy'n angenrheidiol dan ran 42(1) yn unol â gofynion unrhyw reolau a wneir dan y rhan honno;

ac, yn arbennig, i gynnwys:

(d) cofnodion yn dangos, o ddydd i ddydd, holl dderbyniadau a thaliadau ariannol yr elusen a'r materion y mae'r derbyniadau a thaliadau hynny yn digwydd o'u herwydd; a

(e) chofnod o asedion a dyledion yr elusen.

Y mae'r ymddiriedolwyr hefyd yn gyfrifol am warchod asedion yr elusen a thrwy hynny yn gyfrifol am wneud trefniadau rhesymol i ddatgelu ac atal twyll, camgymeriad neu unrhyw gamweinyddu arall.

Wrth baratoi'r cyfrifon disgwylir i'r ymddiriedolwyr ddewis polisïau cyfrifyddol addas a'u gweithredu'n gyson, gan farnu ac amcangyfrif yn ddarbodus ac yn rhesymol.

## ANRHYDEDDUS GYMDEITHAS Y CYMMRODORION
Stryd Eastcastle, Llundain W1W 8DJ

CYFRIF DERBYNIADAU A THALIADAU
am y flwyddyn hyd at 31 Rhagfyr 2005

| | 2005 £ | 2005 £ | 2004 £ | 2004 £ |
|---|---|---|---|---|
| **DERBYNIADAU** | | | | |
| Tanysgrifiadau | | 15,171.35 | | 13,193.22 |
| Mân roddion | | 123.00 | | 350.00 |
| Llog a dderbyniwyd: | | | | |
| Buddsoddiad | 118.62 | | 118.62 | |
| Banc Cynilo Cenedlaethol | 2,073.86 | | 1,666.73 | |
| Banc HSBC | 126.97 | | 122.50 | |
| | | 2,319.45 | | 1,907.85 |
| *Y Bywgraffiadur Cymreig* am dreuliau gweinyddol | | 500.00 | | 500.00 |
| Y Cymry yn Llundain | 594.40 | | 732.09 | |
| Cyhoeddiadau Eraill | 136.53 | | 232.38 | |
| | | 730.93 | | 964.47 |
| Ad-Daliad Treth Incwm/Cyfamodau | | 809.41 | | |
| | | 19,654.14 | | 16,915.54 |
| **TALIADAU** | | | | |
| Rhent a threthi | | 2,000.00 | | 2,000.00 |
| Yswiriant | | 525.00 | | 525.00 |
| Argraffu a phapurach swyddfa | | 1,444.06 | | 1,341.58 |
| Postio | | 624.44 | | 437.28 |
| Ffôn | | 83.73 | | 77.71 |
| Treuliau cyfarfodydd | | 4,111.25 | | 4,419.49 |
| Cost y *Trafodion* | | 6,090.07 | | 5,310.07 |
| Cyfrifyddion Siartredig | | 323.12 | | 323.12 |
| Mân gostau gweinyddol | | 58.70 | | 183.74 |
| Mân roddion a thanysgrifiadau | | 236.66 | | 273.32 |
| Gwefan | | 300.00 | | 552.50 |
| Hanes y Gymdeithas | | | | 780.00 |
| Llogau Banc | | | | 4.00 |
| | | **15,797.03** | | **16,227.81** |
| **MEWN LLAW** | | **3,857.11** | | **687.73** |



## ANRHYDEDDUS GYMDEITHAS Y CYMMRODORION
Stryd Eastcastle, Llundain W1W 8DJ

ASEDAU
Ar 31 Rhagfyr 2005

| | 2005 £ | 2005 £ | 2004 £ | 2004 £ |
|---|---|---|---|---|
| **ASEDAU SEFYDLOG** | | | | |
| Dodrefn ac Offer (Nodyn 1) | 52.96 | | 58.84 | |
| Buddsoddiadau am y gost (Nodyn 2) | 8,995.82 | | 8,995.82 | |
| | | **9,048.78** | | **9,054.66** |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | | |
| Arian yn y Banc: | | | | |
| Banc Cynilo Cenedlaethol | 53,284.26 | | 51,210.40 | |
| Cyfrif Cyfredol - HSBC | 2,316.30 | | 1,649.49 | |
| Cyfrif Busnes - HSBC | 1,326.18 | | 209.74 | |
| | | 56,926.74 | | 53,069.63 |
| Stoc Medalau | | 472.32 | | 472.32 |
| | | **57,399.06** | | **53,541.95** |
| ASEDAU CYFAN | | **66,447.84** | | **62,596.61** |

| **Nodiadau i'r Cyfrifon – Nodyn 1** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dodrefn ac offer am y gost | | 265.56 | | 265.56 |
| Dibrisiant | 5.88 | | 6.54 | |
| Dibrisiant cynyddol | | 212.60 | | 206.72 |
| Gwerth Net Llyfr 31.12.2005 | | 52.96 | | 58.84 |

| **Nodyn 2 – Buddsoddiadau** | **Gwerth 31.12.2005** | **Am y Gost 2005** | **Am y Gost 2004** |
|---|---|---|---|
| 3382.00 3½% War Stock | 2,938.62 | 995.82 | 995.82 |
| 3881.71 Schroders Charity Equity Fund Units | 15,324.99 | 8,000.00 | 8,000.00 |
| | 18,263.61 | 8,995.82 | 8,995.82 |

CECIL ROBERTS
Trysorydd Mygedol
ar ran yr Ymddiriedolwyr
10.4.2006

**ANRHYDEDDUS GYMDEITHAS Y CYMMRODORION**
Stryd Eastcastle, Llundain W1W 8DJ

*Y BYWGRAFFIADUR CYMREIG*

CYFRIF DERBYNIADAU A THALIADAU
Am y flwyddyn hyd at 31 Rhagfyr 2005

| | 2005 | | 2004 | |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| DERBYNIADAU | | | | |
| Llog a dderbyniwyd | | | | |
| Buddsoddiad | 474.48 | | 474.48 | |
| Banc Cynilo Cenedlaethol | 1,124.12 | | 988.94 | |
| Banc HSBC | 0.81 | | 0.54 | |
| | | 1,599.41 | | 1,463.96 |
| Cyngor Llyfrau Cymru | | 126.38 | | 576.90 |
| Gwasg Prifysgol Cymru—Breindaliadau | | | | 79.40 |
| | | **1,725.79** | | **2,120.26** |
| **TALIADAU** | | | | |
| Treuliau Gweinyddol y Cymmrodorion | | 500.00 | | 500.00 |
| Cyfrifyddion Siartredig | | 117.50 | | 117.50 |
| | | **617.50** | | **617.50** |
| **MEWN LLAW** | | **1,108.29** | | **1,502.76** |



**ANRHYDEDDUS GYMDEITHAS Y CYMMRODORION**
Stryd Eastcastle, Llundain W1W 8DJ

*Y BYWGRAFFIADUR CYMREIG*

ASEDAU
Ar 31 Rhagfyr 2005

| | 2004 | | 2003 | |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| ASEDAU SEFYDLOG | | | | |
| Buddsoddiad am y gost 13,563.74 3½ % War Stock | | 4,000.00 | | 4,000.00 |
| ASEDAU CYFREDOL | | | | |
| Arian yn y Banc | | | | |
| Cyfrif Cyfredol – HSBC | 761.05 | | 776.88 | |
| Banc Cynilo Cenedlaethol | 31,509.08 | | 30,384.96 | |
| | | 32,270.13 | | 31,161.84 |
| ASEDAU CYFAN | | **36,270.13** | | **35,161.84** |

**Nodyn: Buddsoddiadau**
13,563.74 3½ %
War Stock Gwerth ar 31/12/2005 — 11,785.53

CECIL ROBERTS
Trysorydd Mygedol
ar ran yr Ymddiriedolwyr
10.4.2006

## THE HONOURABLE SOCIETY OF CYMMRODORION

Report of the Council for 2005

Presented to the Annual General Meeting on 18th May 2006

A knighthood was conferred on the society's President, Professor Rees Davies CBE in the New Year's Honours List 2005. He had been very ill for some months and it was with great sadness that we learnt of his death on 16th May 2005. The society was well represented both at his funeral in Aberystwyth and at the memorial service in Oxford in October. The Council was delighted when Carys, Lady Davies subsequently accepted an invitation to become a Vice-President of the Society.

The Annual General Meeting of the society was held only a matter of days after Sir Rees Davies's death. As a mark of respect to him, the office of President was left vacant, but the meeting empowered the Council to appoint a President in due course. At its meeting in October the Council resolved unanimously to invite Professor Prys Morgan of Swansea to be our next President and was delighted when he accepted the invitation.

Ten lectures were arranged under the auspices of the Society during the year including the Sir T H Parry Williams and June Gruffydd memorial lectures, the latter being a joint meeting with the Montgomeryshire Society. The, by now, customary annual lecture in Welsh in London, was again organised at the London Welsh Centre in Gray's Inn Road. The lecture held in April 2005 in City Hall, Cardiff, and delivered in Welsh, was a joint meeting with the Cymrodorion Society of Cardiff as part of the celebrations of Cardiff's centenary as a city and its fifty years as the capital city of Wales. It was lovely to see a number of Thomas Charles's family descendants present at the lecture in November to commemorate 250 years since his birth in 1755.

Details of all the lectures delivered during the year are as follows:

Tuesday, 18th January 2005 (London)
*'Viking Age Wales: New light on an obscure period'*
Dr Mark Redknap, National Museum of Wales.
In the chair: Professor Thomas Charles-Edwards, Oxford, Member of the Council.

Tuesday, 15th February 2005 (London)
June Gruffydd Memorial Lecture.
*'Queen of Powys: Dora Herbert Jones and her contribution to Welsh Folk Song'*
Gwenan Gibbard, Pwllheli.
In the chair: Dr Rhian Davies, Member of the Council.

Wednesday, 9th March 2005 (London)
*'Travellers in Wales in the Eighteenth Century'*
Dr Peter Howell Williams, Ruthin.
In the chair: Peter Jeffreys, Member of the Council.

Friday 22nd April 2005 (Cardiff)
*'Caerdydd'*
Dr John Davies.
In the chair: Gwen Emyr, Vice-President, Cardiff Cymrodorion.



Thursday, 19th May 2005 (London)
*'This Murmuring and Unthankefull Peevish Land': Wales and the Cromwellian Protectorate'*
Dr Lloyd Bowen, Cardiff.
In the chair: Professor John Elliott, Chairman of the Council.

Monday, 13th June 2005 (London)
*'Gwrhydri Iolo – Trem ar Hanes Gorsedd y Beirdd'*
Dr Robyn Léwis, Archdruid of Wales.
In the chair: Elfyn Llwyd, Esq., M.P.

Monday, 1st August 2005 (National Eisteddfod, Y Faenol)
*'Her y Mynyddoedd: Eryri'r Gorffennol a'r Dyfodol'*
Professor R Merfyn Jones, Vice-Chancellor, University of Wales, Bangor.
In the chair: Professor Eric Sunderland,Vice-President of the Society.

Thursday 29th September 2005 (London)
*'The Law of England and Wales: The Welsh contribution'*
Professor Sir David Williams, Cambridge.
In the chair: Lord Justice Thomas, Vice-President of the Society.

Tuesday, 25th October 2005 (London)
*'Slim's Welsh General: Major General 'Pete' Rees in the Burma Campaign'*
Alan Jeffreys, Esq., Imperial War Museum, Lambeth.
In the chair: Professor John Elliott, Chairman of the Council.

Wednesday, 16th November 2005 (London)
*Confidence and Godly Passion: Thomas Charles of Bala 1755-1814'*
Rev. Dr. R Watcyn James, Tŷ-croes.
In the chair: Rev. Peter Dewi Richards.

The Council wishes to thank those who accepted its invitation to deliver lectures for their valuable contribution to its programme. Thanks are extended, also, to those who chaired its meetings. The lectures were, without exception, well supported.

The *Transactions* for 2004 were published in October 2005. The Council wishes to thank the contributors and puts on record its appreciation of the work undertaken on the volume by the Honorary Editor, Dr Peter Roberts and the Honorary Publications Officer, Dr Rhidian Griffiths.

The Council is grateful to those members who represented it during the year on various public bodies in Wales.

Arrangements were agreed with the National Library of Wales regarding the production of additions to *Y Bywgraffiadur Cymreig/Dictionary of Welsh Biography* and to make them available via the internet on the Library's website. This would cover the period to the year 2000, with Dr Brynley F. Roberts continuing as Editor and Gwenda Sippings being the society's Liaison Officer.

During the year, the deaths occurred of two of the longest-standing members of the society: Rev. John Samuel Jones of Lampeter and Harold G. Whitehead Esq., of Sevenoaks, who had been in membership since 1942 and 1947, respectively.

The Annual General Meeting of the Society was held on 19th May 2005 at the British Academy, with the Chairman of the Council in the chair and 37 members present. The

Council met on three occasions and there were also meetings of Officers and Working Parties.

At the Annual General Meeting, as a mark of respect to the late Professor Sir Rees Davies, the office of President was left vacant, but the meeting empowered the Council to appoint a President in due course. On the motion of Professor John Elliott, seconded by John Samuel on behalf of the Council, all current Vice-Presidents were re-elected.

On the motion of Clive Jones-Davies, seconded by Ken Kyffin, Douglas Brooks, Thomas Charles-Edwards, John Elliott, Rhidian Griffiths, Prys Morgan, Brynley Roberts and David Watkins. were re-elected members of the Council for a period of three years. On the motion of Stuart Cole, seconded by Arwyn Lloyd Hughes, E. Glyn Hughes was re-appointed auditor for the forthcoming year.

The Council, at its meeting in October 2005, noted that the Hon. Secretary had indicated that he did not wish to seek re-appointment when the current term of the officers expires at the end of 2006, by which time he would have occupied the position for ten years.

John Samuel
Hon. Secretary



*Registered Charity Number 313141*

INDEPENDENT EXAMINER'S REPORT TO THE TRUSTEES OF
**THE HONOURABLE SOCIETY OF CYMMRODORION**
ACCOUNTS FOR THE YEAR ENDED 31 DECEMBER 2005

We have examined the accounts on pages 209–212 which have been prepared in accordance with current recommended accounting policies.

**Respective responsibilities of trustees and independent examiner**
As the charity's trustees you are responsible for the preparation of the accounts: you consider that the audit requirement of section 43(2) of the Charities Act 1993 (the Act) does not apply. It is our responsibility to state, on the basis of procedures specified in the General Directions given by the Charity Commissioners under section 43(7)(b) of the Act, whether particular matters have come to our attention.

**Basis of independent examiner's report**
Our examination was carried out in accordance with the General Directions given by the Charity Commissioners. An examination includes a review of the accounting records kept by the charity and a comparison of the accounts presented with those records. It also includes consideration of any unusual items or disclosures in the accounts, seeking explanations from you as trustees concerning any such matters. The procedures undertaken do not provide all the evidence that would be required in an audit and consequently we do not express an audit opinion on the view given by the accounts.

**Independent examiner's statement**
Nothing has come to our attention in connection with our examination which gives us reasonable cause to believe that in any material respect

(a) the accounting records have not been kept in respect of the charity in accordance with section 41 of the Act.

(b) the accounts for the year ended 31 December 2004 do not accord with those records.

Further, nothing has come to our attention in connection with our examination that, in our opinion, should be drawn to the trustees' attention in order to enable a proper understanding of the accounts to be reached.

E. G. HUGHES & CO
Chartered Accountants

Glynderi
Batchworth Lane
Northwood
HA6 3HE

*10.4.2006*

## THE HONOURABLE SOCIETY OF CYMMRODORION

STATEMENT OF TRUSTEES' RESPONSIBILITIES
YEAR ENDED 31 DECEMBER 2005

**Accounting records**
Section 41 requires charity trustees to ensure that such accounting records are maintained that are sufficient to:

(a) show and explain all the charity's transactions;
(b) disclose, at any time, with reasonable accuracy, the financial position of the charity at that time;
(c) enable the trustees to ensure that any statements of account required by section 42(1) comply with the requirements of the Regulations made thereunder;

and, in particular, to contain:

(d) entries showing, from day to day, all sums of money received and expended by the charity, and the matters in respect of which the receipt and expenditure takes place; and

(e) a record of the assets and liabilities of the charity.

The trustees are also responsible for safeguarding the charity's assets and hence for taking reasonable steps for the prevention and detection of error, fraud and other irregularities.

In preparing the accounts the trustees are expected to select suitable accounting policies and apply them consistently, making judgements and estimates that are reasonable and prudent.



## HONOURABLE SOCIETY OF CYMMRODORION

30 Eastcastle Street, London W1W 8DJ

RECEIPTS AND PAYMENTS ACCOUNT
for the year ending 31 December, 2005

| | 2005 | | 2004 | |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| **RECEIPTS** | | | | |
| Subscriptions | | 15,171.35 | | 13,193.22 |
| Donations | | 123.00 | | 350.00 |
| **Interest Received:** | | | | |
| Investments | 118.62 | | 118.62 | |
| National Savings Bank | 2,073.86 | | 1,666.73 | |
| HSBC Bank | 126.97 | | 122.50 | |
| | | 2,319.45 | | 1,907.85 |
| DWB Administration | | 500.00 | | 500.00 |
| Welsh in London | 594.40 | | 732.09 | |
| Other Publications | 136.53 | | 232.38 | |
| | | 730.93 | | 964.47 |
| Tax Recovery Covenants | | 809.41 | | |
| | | 19,654.14 | | 16,915.54 |
| **PAYMENTS** | | | | |
| Rent & Rates | | 2,000.00 | | 2,000.00 |
| Insurance | | 525.00 | | 525.00 |
| Printing and Stationery | | 1,444.06 | | 1,341.58 |
| Postage | | 624.44 | | 437.28 |
| Telephone | | 83.73 | | 77.71 |
| Meeting Expenses | | 4,111.25 | | 4,419.49 |
| Cost of *Transactions* | | 6,090.07 | | 5,310.07 |
| Accountant's Fees | | 323.12 | | 323.12 |
| Sundry Administration Charges | | 58.70 | | 183.74 |
| Donations & Subscriptions | | 236.66 | | 273.32 |
| Website | | 300.00 | | 552.50 |
| History of the Society | | | | 780.00 |
| Bank Charges | | | | 4.00 |
| | | **15,797.03** | | **16,227.81** |
| **EXCESS OF RECEIPTS OVER PAYMENTS** | | **3,857.11** | | **687.73** |

## HONOURABLE SOCIETY OF CYMMRODORION

30 Eastcastle Street, London W1W 8DJ

SCHEDULE OF ASSETS
for the year ending 31 December, 2005

| | 2005 £ | £ | 2004 £ | £ |
|---|---|---|---|---|
| **FIXED ASSETS** | | | | |
| Furniture & Equipment (Note 1) | 52.96 | | 58.84 | |
| Investment at Cost (Note 2) | 8,995.82 | | 8,995.82 | |
| | | **9,048.78** | | **9,054.66** |
| **CURRENT ASSETS** | | | | |
| Cash at Bank: | | | | |
| National Savings Bank | 53,284.26 | | 51,210.40 | |
| HSBC - Current Account | 2,316.30 | | 1,649.49 | |
| HSBC - Business Account | 1,326.18 | | 209.74 | |
| | | 56,926.74 | | 53,069.63 |
| Stock of Medals | | 472.32 | | 472.32 |
| | | **57,399.06** | | **53,541.95** |
| TOTAL ASSETS | | **66,447.84** | | **62,596.61** |

**Notes to the Accounts – Note 1**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Furniture & Equipment at Cost | | 265.56 | | 265.56 |
| Depreciation | 5.88 | | 6.54 | |
| Accumulated Depreciation | | 212.60 | | 206.72 |
| Net Book Value 31.12.2004 | | 52.96 | | 58.84 |

| **Note 2 – Investments** | **Value 31.12.2005** | **At cost 2005** | **At cost 2004** |
|---|---|---|---|
| 3382.00 3½% War Stock | 2,938.62 | 995.82 | 995.82 |
| 3881.71 Schroders Charity Equity Fund Units | 15,324.99 | 8,000.00 | 8,000.00 |
| | 18,263.61 | 8,995.82 | 8,995.82 |

CECIL ROBERTS
Hon Treasurer
on behalf of the Trustees
10.4.2006



## HONOURABLE SOCIETY OF CYMMRODORION

30 Eastcastle Street, London W1W 8DJ

*DICTIONARY OF WELSH BIOGRAPHY*

RECEIPTS AND PAYMENTS ACCOUNT
for the year ending 31 December 2005

| | 2005 £ | £ | 2004 £ | £ |
|---|---|---|---|---|
| **RECEIPTS** | | | | |
| **Interest Received** | | | | |
| Investment | 474.48 | | 474.48 | |
| National Savings Bank | 1,124.12 | | 988.94 | |
| HSBC | 0.81 | | 0.54 | |
| | | 1,599.41 | | 1,463.96 |
| Welsh Books Council | | 126.38 | | 576.90 |
| Univ of Wales Press / Royalties | | | | 79.40 |
| | | **1,725.79** | | **2,120.26** |
| **PAYMENTS** | | | | |
| HSC Administration | | 500.00 | | 500.00 |
| Accountant's Fees | | 117.50 | | 117.50 |
| | | **617.50** | | **617.50** |
| **EXCESS RECEIPTS OVER PAYMENTS** | | **1,108.29** | | **1,502.76** |

**HONOURABLE SOCIETY OF CYMMRODORION**
30 Eastcastle Street, London W1W 8DJ

*DICTIONARY OF WELSH BIOGRAPHY*

SCHEDULE OF ASSETS
for the year ending 31 December 2005

| | 2005 £ | 2005 £ | 2004 £ | 2004 £ |
|---|---|---|---|---|
| **FIXED ASSETS** | | | | |
| **Investment at Cost** | | | | |
| 13,563.74 3½ % War Stock | | 4,000.00 | | 4,000.00 |
| **CURRENT ASSETS** | | | | |
| **Cash at Bank** | | | | |
| HSBC Current Account | 761.05 | | 776.88 | |
| National Savings Bank | 31,509.08 | | 30,384.96 | |
| | | 32,270.13 | | 31,161.84 |
| **TOTAL ASSETS** | | **36,270.13** | | **35,161.84** |

**Note: Investment**
13,563.74 3½ %
War Stock Market Value at 31.12.2005 11,785.53

CECIL ROBERTS
Hon Treasurer
on behalf of the Trustees
10.4.2006